Medi 2008

AIL-APWYNTIO WINSTON RODDICK YN AELOD O AWDURDOD S4C

Mae Andy Burnham, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi ail-apwyntio Winston Roddick yn aelod o Awdurdod S4C am ail dymor o bedair mlynedd o 1 Medi 2008 i 31 Awst 2012.

Nodiadau Bywgraffiadol

Mae Winston Roddick CB QC yn gweithio fel Cwnsler y Frenhines yng Nghaerdydd a Llundain. Mae hefyd yn Gofiadur Llys y Goron, ac yn Gofiadur Anrhydeddus Caernarfon. Mae ar hyn o bryd yn Arweinydd Cylchdaith Cymru a Chaer. Cafodd ei benodi yn Gwnsler Cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1998 am gyfnod o bum mlynedd a chafodd ei anrhydeddu fel Cymrawd Urdd y Baddon (CB) ac fel aelod o'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol 2004. Mae'n Gymrawd ac Is-Lywydd, Prifysgol Aberystwyth. Bu'n aelod o'r Comisiwn Teledu Annibynnol (ITC) am gyfnod cyn ei benodi i'r Cynulliad.

Cefndir

1. Sefydlwyd S4C (Sianel Pedwar Cymru) i ddarparu gwasanaethau teledu Cymraeg o ystod eang ac o safon uchel. Mae Awdurdod S4C yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau S4C a sicrhau bod S4C a S4C Digidol yn cael eu gweithredu fel gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â sicrhau bod trefniadau rheolaeth effeithiol, gan gynnwys rheolaeth ariannol, mewn lle ar gyfer gweithgareddau cyhoeddus a masnachol S4C.

2. Ariannir S4C ar ffurf grant sy'n cael ei bennu gan fformiwla a amlinellir yn Neddf Darlledu 1996. Trosiant blynyddol S4C yn 2007 oedd £100.059 miliwn.

3. Cydnabyddiaeth cyfredol i Aelodau Awdurdod S4C yw £9,370 y flwyddyn am 1 diwrnod enwebedig yr wythnos.

4. Mae'r ail-apwyntiad wedi ei wneud yn unol â Chod Ymarfer Swyddfa'r Comisiynydd Apwyntiadau Cyhoeddus. Nid yw Winston Roddick yn dal unrhyw apwyntiadau cyhoeddus eraill.

5. Gwneir ail-apwyntiadau ar sail haeddiant ac nid yw gweithgaredd gwleidyddol yn chwarae unrhyw ran yn y broses o ddewis. Nid yw Winston Roddick wedi datgan unrhyw weithgaredd gwleidyddol dros y bum mlynedd diwethaf.